

# HYSBYSIAD O SEDD WAG ACHLYSUROL

## CYNGOR TREF PONT-Y-CLUN

### Ward GORLLEWIN PONT-Y-CLUN

RHODDIR RHYBUDD yn unol ag adran 87 (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod SWYDD WAG ACHLYSUROL wedi digwydd yn aelodaeth Cyngor Tref Pont-y-clun ar gyfer Ward **GORLLEWIN PONT-Y-CLUN**.

Os na fydd Etholiad yn cael ei hawlio, fel y nodir isod, bydd yn ofynnol i'r Cyngor lenwi'r sedd wag achlysurol trwy gyfethol yn unol ag Adran 116 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Bydd Etholiad yn cael ei gynnal os bydd DEG o Etholwyr Llywodraeth Leol y Ward yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r:

**Swyddog Priodol, 10-12 Heol Gelliwastad, Pontypridd CF37 2BW, neu e-bost [gwasanaethauetholiadau@rctcbc.gov.uk](mailto:gwasanaethauetholiadau@rctcbc.gov.uk) yn gofyn am Etholiad.**

Bydd rhaid i hysbysiad o'r fath gael ei gyflwyno heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwn. Cyfrifir yr amser yn unol â Rheol 2 yn y rheoliadau uchod, sy'n diystyru Gwyliau Banc, dydd Sadwrn a dydd Sul.

Os na fydd etholiad yn cael ei hawlio, dylai person cymwys sydd â diddordeb mewn cyfethol roi gwybod i'r isod.

DYDDIEDIG : 16 Medi 2024

Julius Roszkowski, Clerc  
Canolfan Cymuned Pont-y-clun  
Heol yr Orsaf,  
Pont-y-clun.  
CF72 9EE